# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## CC(3)-18-09- papur 1 -  2 Tachwedd

### Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant:  Cynllun Cyfrifon Segur i Gymru

**Adroddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru**

**Cefndir a deddfwriaeth sylfaenol**

Mae'r papur hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am yr hyn sy'n cael ei wneud i sefydlu Cynllun Cyfrifon Segur i Gymru.

Mae Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 yn darparu ar gyfer cynllun newydd i ganiatáu i arian mewn cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu 'segur' gael ei ailfuddsoddi mewn cymunedau lleol. Yn ôl y diffiniad, cyfrifon nad yw cwsmeriaid wedi'u cyffwrdd am 15 mlynedd yw cyfrifon segur. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r banciau a'r cymdeithasau adeiladu cyfrannog ddileu eu hymrwymiad i ddeiliad y cyfrif segur drwy drosglwyddo'r cyfrif i 'Gronfa Adfer' ganolog (i'r DU gyfan).

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu cynlluniau gwahanol ym mhob gwlad i ddosbarthu'r arian, yn unol â'r dibenion gwario a amlinellir yn y Ddeddf (ar gyfer Lloegr), a thrwy Orchmynion wedi'u gwneud gan y gweinyddiaethau datganoledig (ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol fydd rhannu'r arian, ac mae Trysorlys EM wedi penderfynu y dylai hynny gael ei wneud fesul y pen o'r boblogaeth gan ddefnyddio fformiwla Barnett. Mae'r Ddeddf yn enwi'r Gronfa Loteri Fawr yn ddosbarthwr i bob gwlad.

**Trafodaeth gychwynnol ynglyn â blaenoriaethau'r Cynllun i Gymru**

Trafododd Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru ddibenion gwario'r Cynllun Cyfrifon Segur i Gymru gyntaf yn Rhagfyr 2007. Bryd hynny, yn dibynnu ar ganlyniad ymgynghoriad, cytunwyd y dylid gwario'r arian yn bennaf ar:

(i) "'Helpu pobl ifanc i wireddu eu holl botensial gan weithio drwy'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol i hybu cynhwysiant cymdeithasol'", a<br>
(ii) "'Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd; a hybu datblygu cynaliadwy ehangach drwy weithgarwch penodol yn y gymuned'".

Awgrymodd y Cabinet hefyd bump o 'nodau polisi', hy themâu manylach y ddau ddiben gwario, yn sylfaen bosibl i'r cyfarwyddiadau ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr.  Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

Bu'r Pwyllgor hwn hefyd yn trafod ffyrdd o ddefnyddio arian y cyfrifon segur, yn ystod ei 'Ymchwiliad i ariannu mudiadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru'. Roedd yr adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym Mai 2008, yn cynnwys argymhelliad (Rhif 7) y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru '"gadarnhau a hybu'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru fel cyfrwng priodol i reoli a chodi gwerth asedau segur nad oes neb yn eu hawlio, a chronfeydd segur o wahanol ffynonellau … i greu cronfeydd gwaddol i greu ffynhonnell ariannu gynaliadwy, hirdymor, annibynnol ar gyfer y trydydd sector …"'.

At hynny, fe alwodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau, wrth sefydlu'r Cynllun, "'fod Cymru yn cael cyfran briodol (o'r cyllid) a bod swm sylweddol yn cael ei gyfeirio at y trydydd sector' (argymhelliad 17)".

**Yr ymgynghoriad a thrafodaethau â'r Gronfa Loteri Fawr**

Yn Ebrill 2008, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Gronfa Loteri Fawr i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei rhan. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8 Awst a 14 Tachwedd 2008. Yn ystod yr ymgynghoriad gwahoddwyd pobl i roi eu barn ar y dibenion gwario arfaethedig, a hefyd ar y ffyrdd gorau o ddosbarthu'r arian yma, hy grantiau,  benthyciadau, gwaddolion, neu gymysgedd o ddulliau dosbarthu.

Roedd yn amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fod cefnogaeth gyffredinol i'r dibenion gwario arfaethedig. O ran 'helpu pobl ifanc', roedd yr agenda dysgu a chyflogaeth yn flaenoriaeth i lawer, yn enwedig ymyrraeth gynnar a gweithgarwch adfer ar gyfer 'NEETs' ifanc. O ran newid yn yr hinsawdd roedd cefnogaeth amlwg i ymyrraeth ar lefel gymunedol.

O ran dulliau dosbarthu, roedd cynnig grantiau yn ddull poblogaidd, ond roedd yn well gan dros hanner yr ymatebwyr ddefnyddio cymysgedd o ddulliau. ''''

'

Yna cysylltais â'r Gronfa Loteri Fawr i geisio'u barn hwy. Roedd y Gronfa o'r farn y byddai pum nod polisi yn ormod, ac awgrymodd y dylid canolbwyntio ar NEETs, er mwyn helpu pobl ifanc sy'n cael ymwneud ag addysg a chyflogaeth yn anodd. Dadleuodd hefyd y byddai un diben gwario yn cael mwy o effaith, ond os cedwid y ddau, dim ond grantiau bach ar gyfer gweithredu ar lefel gymunedol a fyddai'n cael eu rhoi o dan yr elfen newid hinsawdd.

### 4.  Datblygiadau ers yr ymgynghoriad

Ers yr ymgynghoriad, mae dadl y Gronfa Loteri Fawr o blaid targedu llai o nodau polisi o fewn 'helpu pobl ifanc' wedi'i chryfhau gan amcangyfrifon newydd o'r swm o arian sy'n debygol o fod ar gael. Nid yw Trysorlys EM mewn sefyllfa eto i gyhoeddi'r union ffigur, am

fod deiliaid cyfrifon yn gallu adhawlio'u hasedau unrhyw bryd, ac am fod y Gronfa Adfer yn dal i gael ei sefydlu. Fodd bynnag, mae'n amcangyfrif ar hyn o bryd y bydd Cymru'n cael £8-10 miliwn i gychwyn, a rhywfaint yn y dyfodol o gyfrifon segur newydd. Mae hyn yn llai o lawer na'r £15-20 miliwn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Am fod 'helpu pobl ifanc' yn rhan o'i chylch gwaith hithau hefyd, cysylltais â'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sy'n cefnogi'r dadleuon o blaid dull mwy targededig.

**5. Dibenion Gwario: (i) helpu plant a phobl ifanc**

O ran 'Helpu pobl ifanc...' y cynnig yw canolbwyntio ar helpu pobl ifanc sy'n NEET, er mwyn cydategu ein Cynllun NEETs a gyhoeddwyd ym mis Ebrill eleni. Dyma'r unig ffrwd ariannu sector cyhoeddus a fydd wedi'i thargedu'n benodol at NEETs ifanc. Bydd lle i hybu prosiectau sydd hefyd yn cyfrannu at strategaethau cysylltiedig, ee tlodi plant, troseddau ieuenctid, Ymestyn Hawliau, a Llwybrau Dysgu 14-19.

Roedd yr ymgynghoriad, a'r trafodaethau â'r Gronfa Loteri Fawr, hefyd yn dangos bod angen prosiectau 'ymyrraeth gynnar', wedi'u hanelu at blant sydd mewn perygl o fynd yn NEET. I ganiatáu hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach yn cynnig newid y diben gwario hwn i: '"Helpu ""plant a"" phobl ifanc i wireddu eu holl botensial gan weithio drwy'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol i hybu cynhwysiant cymdeithasol'".

6. **Dibenion Gwario: (ii) mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd**

O ran yr elfen newid hinsawdd, cynigir cadw geiriad gwreiddiol y 'diben gwario': "'Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd; a hybu datblygu cynaliadwy ehangach drwy weithgarwch penodol yn y gymuned'"." "

Y cynnig yw canolbwyntio ar ymyriadau graddfa fach a fydd yn grymuso pobl a chymunedau i gyfrannu at gyflawni ein Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd. Bydd y rhaglen yn helpu i sicrhau'r mân lwyddiannau y gall grwpiau cymunedol adeiladu arnynt, ac yn cymell mwy o bobl i weithredu. Bydd yr arian hwn yn cydategu'r mentrau mwy a gaiff eu hariannu o dan raglen Newid yn yr Hinsawdd y Gronfa Loteri Fawr ei hun, rhaglen a gaiff ei hariannu drwy'r loteri ac na fydd yn cychwyn tan Ebrill 2011 o leiaf. Dywed y Gronfa y bydd yn dyrannu £12-15 miliwn i'r rhaglen honno, dros gyfnod o 3-4 blynedd.

**Rhannu'r arian rhwng y ddau ddiben gwario**

Gyda chytundeb y Gweinidogion perthnasol, ac os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo'r ddeddfwriaeth ddrafft, rwy'n bwriadu dweud wrth y Gronfa Loteri Fawr am ddefnyddio hyd at 80% o'r arian i 'helpu plant a phobl ifanc', a'r gweddill i 'fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd'.

Gellir adolygu'r gymhareb hon, er enghraifft os bydd y galw am y naill ddiben neu'r llall yn uwch neu yn is o lawer na'r disgwyl. Mae'r cynnig i wario llai ar fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn adlewyrchu (i) tystiolaeth mai symiau cymharol fach sydd eu hangen yn aml ar brosiectau cymunedol ar y newid yn yr hinsawdd, a (ii) y pwyslais a fydd ar y newid yn yr hinsawdd ym mhrif raglenni'r Gronfa, fel y nodwyd uchod.

**8. Cymeradwyo Is-ddeddfwriaeth**

Wedi cytuno ar y ddau ddiben gwario, y cam nesaf fydd dwyn Gorchymyn ymlaen o dan Adran 19 o'r Ddeddf (Atodiad 3) 'i gyfyngu ar ddibenion a derbynwyr cymwys' yr arian. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo hyn.

Mae'r Gorchymyn yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ond bydd yn cael ei gyfyngu i nodi'r dibenion gwario ac i ddiffinio'r termau (ee 'pobl ifanc' a 'newid yn yr hinsawdd'). Rwy'n gobeithio y bydd modd i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ystyried y Gorchymyn drafft yn gynnar yn 2010, ac y bydd modd trafod y gorchymyn drafft mewn cyfarfod llawn ym mis Ebrill neu fis Mai.

**9. Cyfarwyddiadau polisi**

Ar ôl gwneud y Gorchymyn, y cam nesaf o ran gweithredu'r Cynllun fydd i mi roi 'Cyfarwyddiadau Polisi' i'r Gronfa Loteri Fawr, o dan Adran 22 o'r Ddeddf (hefyd yn Atodiad 3). Mae'r Cyfarwyddiadau'n caniatáu i Weinidogion nodi'n fanylach sut y dylid dehongli'r dibenion gwario. Mae Cyfarwyddiadau drafft wedi'u llunio ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr, a cheir copi ohonynt yn Atodiad 4. Wedi iddi dderbyn y cyfarwyddiadau hyn, bydd y Gronfa'n mynd ati i baratoi'r Cynllun yn fanwl. Disgwylir i hyn gymryd chwe mis. Bydd modd i Weinidogion gyhoeddi cyfarwyddiadau polisi eraill yn y dyfodol os bydd mwy o arian ar gael, neu os bydd y blaenoriaethau'n newid.

**10. Amserlen ar gyfer lansio'r Cynllun**

Mae'r amserlen gyfredol ar gael yn Atodiad 5. Yn amodol ar yr is-ddeddfwriaeth, mae'n bosibl y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn gallu gwahodd ceisiadau o fis Awst 2010. Gallai'r grantiau cyntaf gael eu talu, o bosibl, tua diwedd 2010. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen gohirio hyn os bydd yr oedi presennol o ran sefydlu'r Gronfa Adfer yn parhau; hyd yma nid oes sefydliad ariannol wedi'i benodi. Mae Cymdeithas Bancwyr Prydain a Chymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu yn dal i geisio dod o hyd i sefydliad addas.

**Cynlluniau fan arall yn y DU**

Fel y nodwyd uchod, bydd cynlluniau dosbarthu gwahanol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ceir nodyn yn crynhoi cynnydd y cynlluniau hyn hyd yma yn Atodiad 6.

**12. Goblygiadau ariannol**

Bydd y Cynllun yn sicrhau bod swm sylweddol o arian newydd ar gael i'r Trydydd Sector yng Nghymru. Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cynulliad Cymru o'r Cynllun, hy ni fydd costau gweinyddol ychwanegol i Lywodraeth y Cynulliad ac eithrio costau monitro'r Cynllun. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Gronfa Loteri Fawr dalu ei chostau gweinyddol ei hun, sy'n deillio o redeg y Cynllun, o gyfanswm yr arian fydd ar gael.

**13. Diweddglo**

Mae'r papur hwn yn dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at sefydlu Cynllun Cyfrifon Segur i Gymru. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi dibenion gwario arfaethedig y Cynllun Cyfrifon Segur i Gymru, a'r amserlen barhaus ar gyfer gweithredu'r Cynllun.

Alun Ffred Jones AC
Y Gweinidog dros Dreftadaeth
Tachwedd 2009